Taflen Ffeithiau 1
Hybu eich teithiau

Pam ydych chi angen hybu eich teithiau cerdded?

- I gael mwy o bobl i ymuno â chi neu i atgoffa aelodau sydd wedi anghofio am eich teithiau cerdded
- I ddechrau eto wedi seibiant
- I sefydlu gwahanol grwpiau diddordeb o grŵp cerdded sy'n bodoli eisoes
- I hybu achlysur arbennig

Pa un ai ydych eisiau dim ond tri neu bedwar neu fwy o ffrindiau i ymuno â chi neu eisiau gweithredu prosiect marchnata mawr, mae rhai egwyddorion cyffredin i feddwl amdanynt:

Pwy ydych chi'n ceisio eu denu a faint ohonynt?

- Pobl rydych eisoes yn eu hadnabod, pobl ieuainc, teuluoedd ieuainc, dynion canol oed, cyplau wedi ymddeol, cleifion cardiag neu unrhyw un o'r gymuned leol?

- Ydych chi ddim ond eisiau ychydig mwy o aelodau neu am ddenu cannoedd o bobl i ddiwrnod cerdded cymunedol? Dewiswch ddull sy'n realistig i'ch nodau chi a'r amser a'r adnoddau sydd gennych ar gael.

Beth allwch chi ei gynnig iddynt hwy?

- Pam ddylen nhw ymuno â chi, sut fyddant yn elwa?
- Mae 'prynwyr yn prynu manteision' – ac mae'r rhain yn dibynnu ar bwy ydych chi'n ei dargedu.

Beth ydych chi'n ei werthu?

- Hwyl, amser da'n gymdeithasol, cwmni, hyder, grŵp tebyg i chi o ran anian, manteision iechyd, amrywiaeth? Mae pobl yn fwy tebygol o ymateb yn bositif i 'fwrlwm' cerdded na'i 'werthoedd athronyddol'!

Felly beth yw'r negeseuon allweddol ddylech chi eu cyfleu?

Waeth pa ddull a ddefnyddir gennych, cofiwch fod gwaith hyrwyddo da yn:

- denu **sylw** pobl
  – "Mae hyn'na'n swnio ac yn edrych yn dda"
- denu eu **diddordeb**
  – "Dywedwch fwy wrthyf, darllen ymlaen"
- eu hannog i wneud **penderfyniad**
  – "Rwy'n credu y gwnaf i hyn'na"
- ac yna i **weithredu**
  – "Fe godaf y ffôn. Fe ddof yr wythnos nesaf"

Sut i gyfleu eich neges:

Dydi hon ddim yn broblem gyda phobl rydych yn eu hadnabod. Maent yn eich adnabod eisoes, ac yn gwybod rhywbeth amdanoch chi. Rydych yn siarad eu 'hiaith'; yn gwybod beth sydd o ddiddordeb iddynt a sut i gael eu sylw; beth fydd y rhwystrau tebygol iddynt a beth fydd eu pryderon. Rydych yn gwybod ble i gael hyd iddynt ac maent hwy'n gwybod ble i gael hyd i chi os ydynt angen unrhyw wybodaeth bellach.

Mae denu pobl nad ydych yn eu hadnabod yn defnyddio'r un egwyddorion, dim ond bod angen gwahanol ddulliau o fynegi eich neges. Meddyliwch am bwy ydych chi eisiau cyfathrebu â hwy, beth allai fod o ddiddordeb iddynt a sut i gael eu sylw, pa 'iaith' maent yn ei siarad a'r rhwystrau a allent eu hwynebu. Gwnewch bethau'n hawdd iddynt gymryd y cam nesaf – ac i gysylltu â chi er mwyn cael gwybodaeth bellach.

Sut i gyfleu eich neges:

	Poster, taflen, hysbyseb, ar y we, safle rhwydweithio cymdeithasol	Wyneb yn wyneb – cyflwyniad i grŵp neu efallai darllediad ar y radio yn lleol
A yw'n hawdd adnabod eich grŵp?	A oes gennych logo, lliw neu arddull rydych yn ei ddefnyddio bob amser?	Anfon rhywun y gall y grŵp uniaethu ag ef / hi – rhywun tebyg iddynt hwy
Beth mae pobl yn ei wybod amdanoch chi?	Brawddeg fer sy'n dweud wrthynt pwy ydych chi a beth ydych yn ei wneud.	Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio enw'r grŵp sawl gwaith, fel ei fod yn 'glynu'. Os yn cyflwyno, ewch â thaflenni gyda chi i'w dosbarthu
Denu eu sylw	Cynllun, lliw, arddull, llythrennau, maint, geiriau amlwg sy'n dal y llygad. Mae arbenigwyr marchnata'n dweud wrthym am beidio â defnyddio mwy na 10 gair ar boster! Mae llun yn dweud miloedd o eiriau – sicrhewch effaith weledol Lluniau, delweddau perthnasol – wynebau'n gwenu, pob siâp a maint, cerdded yn braf.	Byddwch yn barod – lluniwch ddechrau positif, hyderus a bachog. Paentiwch lun gyda geiriau. Helpwch y gynulleidfa i'w gweld eu hunain yn y llun hwnnw. Peidiwch â cheisio dweud gormod – canolbwyntiwch ar y negeseuon allweddol – manteision, goresgyn rhwystrau, annog gweithredu. Adroddwch stori am aelod o'ch grŵp – ei wneud yn real
Ydych chi'n siarad eu 'hiaith'?	Osgowch jargon, byddwch yn glir, yn gryno, hawdd ei ddarllen a'i ddeall. Defnyddiwch y geiriau 'iawn'; ar gyfer eich grŵp targed - e.e. tecst i bobl ieuainc.	Peidiwch â bod yn dechnegol! Meddyliwch am y geiriau allweddol a'u defnyddio ddwy neu dair gwaith – cyfeillgarwch, hwyl, iechyd, hawdd, cynnydd, diddorol. Osgowch asesu risg, dwys, holiaduron sgrinio iechyd.
A ydych chi wedi meddwl am y pethau sydd o ddiddordeb i'ch grŵp targed?	Meddyliwch am beth fyddent eisiau ei 'brynu' – yn hytrach na beth ydych chi eisiau ei werthu!! Gwneud ffrindiau, cadw'n heini, codi allan o'r tŷ, rhoi cynnig ar rywbeth newydd, colli pwysau ac aros yn iach.	Rhowch eich hun ym meddwl y gynulleidfa. Pwy ydyn nhw? Beth sydd o ddiddordeb iddynt wrth gerdded? Beth sy'n eu symbylu i weithredu?
Beth allai fod yn rhwystr neu'n bryder iddynt a sut allwch chi oresgyn y rhain?	Ddim digon heini, ddim yn hoffi'r awyr agored, rhy gyflym, rhy bell, diwrnod anghywir, beth i'w wisgo, ddim yn adnabod neb sy'n mynd, ansicr ble i fynd. Mae ateb i bob rhwystr bron iawn.	Nodwch ddau neu dri rhwystr tebygol a chynigiwch atebion ar unwaith gyda geiriau allweddol. Eich cyflymdra, eich ffrindiau, eich ardal, rhan o grŵp, dewch i roi cynnig arni (rhowch enghreifftiau penodol i'r grŵp targed).
Ble fyddwch chi'n cael hyd iddynt?	Gartref, siop y pentref, tafarn, y tu allan i'r ysgol, canolfan iechyd, swyddfa bost, yn y parc.	Meddyliwch am y grwpiau cymunedol presennol y byddai eich grŵp targed yn eu mynychu. Meddyliwch am raglenni radio maent yn debygol o wrando arnynt.
Sut maent yn cysylltu â chi os ydynt angen unrhyw wybodaeth bellach?	Enwi person cyswllt cyfeillgar a chlên a fydd yn gallu darparu gwybodaeth gynhwysfawr (cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a gwefan os oes gennych un).	Ewch â thaflenni gyda'ch manylion cyswllt gyda chi – arhoswch yno wedyn i gwrdd â phobl a siarad â hwy. Gofynnwch i'r orsaf radio gadw eich manylion cyswllt ar gael. .